# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth 14/06/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Rhian Sanson | Gruffydd Williams | Gareth Jones | Gwynfor Jones |
| Alaw Llewelyn Roberts | Arfon Hughes | Rhys Llewelyn | Sharon Williams | Pat Humphreys (Clerc) |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Catrin Roberts, Janice Evans, Lleucu Jones a Caren Jones.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Zoom 10/05/2022
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gwynfor Jones

4. **Unrhyw Fater Brys**
   **Cyfyngiadau Parcio yn Nefyn –** Arfon Hughes & Gruffydd Williams
   Mae Cyngor Gwynedd wedi anfon Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu aros a mannau parcio ar y stryd sy'n cyfyngu llefydd parcio ar nifer o strydoedd yn Nefyn o'r 1af o Orffennaf ymlaen. Mae llefydd parcio yn Nefyn yn brin iawn ac mae'r strydoedd sy'n destun y gorchymyn yma yn fannau parcio ar gyfer pobol leol sydd yn byw yno felly lle mae'r bobol yma yn mynd i barcio wedyn.
   Penderfyniad: cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ddatgan pryder am y gorchmynion yma ac i ofyn am gyfarfod safle i darfod y mater ar frys.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes
   **Rhandiroedd Nefyn** – Gruffydd Williams
   Gan fod y rhandiroedd wedi cael eu draenio ac wedi cael amser i sychu mae angen aredig y tir er mwyn ceisio eu cael yn barod i osod allan i drigolion y pentref.
   Penderfyniad: y clerc i ofyn i gontractwr lleol i fynd yno i aredig y tir.
   Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Sharon Williams
   Penderfynwyd hefyd i garthu yr afon ar ôl y tymor nythu ym mis Medi.
   Cynnig: Sharon Williams Eilio: Arfon Hughes

5. **Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2021-2022 –** Dogfennau cysylltiedig - Ffurflen Flynyddol 2021-2022, Cysoniad Banc 2021-2022, Cyfrifon 2021-2022 ac Adroddiad Archwilwyr Mewnol 2021-2022.
   Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol, Adroddiad Archwiliad Mewnol, y cysoniad banc â'r cyfrifon iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Fe aeth y clerc drwy'r risciau a godwyd gan yr Archwilwyr yn eu adroddiad, mae un o'r risciau wedi ei liniaru yn barod ond mae'r clerc am drafod yr ail risc hefo'r archwilydd mewnol i weld beth sydd angen ei wneud fel nad yw yn cael ei godi eto y flwyddyn nesaf.
   Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2021-2022.
   Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhys Llewelyn

6. **CCTV Parc y Ddôl –** Diweddariad
Cafwyd diweddariad gan y clerc ar ôl iddi gysylltu hefo Cyngor Cymuned Aberdaron ynglŷn â'r broses o osod CCTV mewn cae chwrae gan eu bod nhw wedi gwneud yn barod yn Aberdaron. Nid yw Aberdaron wedi cael y rhestr o'r pwyntiau sydd angen eu cyfarch gan Cyngor Gwynedd ond, yn ôl y swyddog, bydd angen dilyn y drefn yma fel bod popeth yn ei le yn swyddogol sydd yn golygu lot fawr o waith ychwanegol sef rhoi Datganiad Preifatrwydd i fyny ar wefan y Cyngor Tref a gwneud Asesiad Effaith Diogelu Data ymysg nifer o bethau eraill. Cododd Aberdaron nifer o bwyntiau eraill sydd angen eu ystyried fel cael pŵer i'r camerau, bod angen 4G a app i recordio y 'footage' a gwneud yn siwr bod caniatad cynllunio ar gyfer y polyn sy'n dal y camera. Mae angen bod yn ofalus iawn hefo gosod y camerau fel eu bod yn recordio y llefydd iawn a ddim yn tarfu ar lefydd eraill a bod arwyddion pwrpasol i fyny yn rhybuddio'r cyhoedd fod camerau yn bresennol. Dywedodd nifer o'r aelodau bod ganddynt bryder ynglŷn â gosod y camerau yma felly cynnigiodd un o'r aelodau siarad hefo'r heddlu ynglŷn â'r mater.
Penderfyniad: ei roi ar agenda mis nesaf ar ôl siarad hefo'r heddlu.

7. **Difrod Tân yn Cae Chwarae Parc Y Ddol –** Clerc
Mae'r Heddlu wedi cysylltu hefo'r clerc yn gofyn os oes unrhyw un o'r aelodau yn fodlon mynd i'r cwrt i roi tystiolaeth yn erbyn y ddau sydd wedi eu cyhuddo o greu y difrod tân ar yr offer yn Cae Chwarae Parc y Ddôl nôl ym mis Ionawr eleni. Os na fydd neb yn fodlon mynd fe fydd modd gwneud 'Community Resolution Compensation' hefo'r ddau fel eu bod yn ymddiheuro mewn rhyw ffordd am wneud y difrod. Nid yw'r aelodau yn awyddus i'r mater fynd i'r cwrt felly mae'r clerc am ffonio'r Heddlu i ddweud.
Penderfyniad: y clerc i ffonio'r Heddlu i ddweud nad ydynt eisiau i'r mater yma fynd i'r cwrt ond yn hytrach eisiau delio hefo'r mater drwy 'Community resolution Compensation'.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Alaw Llewelyn Roberts
Mae Zurich wedi cysylltu hefo'r clerc i ddweud y bydd yr arian yswiriant yn cael ei dalu i'r Cyngor Tref am y difrod tân yn ystod yr wythnos nesaf.
Penerfyniad: unwaith y bydd yr arian wedi ei dderbyn y clerc i gysylltu hefo'r cwmni offer chwarae i archebu'r partiau newydd ac yna cysylltu hefo'r contractwr i wneud y gwaith.

8. **Meinciau Cae Coch a Terfynfa –** Cadeirydd
Mae'r aelodau sydd yn gysylltiedig a'r mater yma wedi penderfynnu cael dwy fainc yr un dyluniad a'r rhai newydd sydd wrth y gof golofn yn Nefyn yn y ddau lecyn yma yn Morfa Nefyn a rhoi plac 'Mainc Cae Coch' a 'Mainc Terfynfa' ar y ddwy gan eu bod yn feinciau cryf i wrthsefyll fandaliaeth ac yn gweddu gyda'r railings newydd yn Cae Coch. Atgoffodd y clerc yr aelodau bod angen llenwi ffurflen gais yn gyntaf cyn archebu'r meinciau gan fod angen caniatad gan yr adran eiddo i'w rhoi yna.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo'r aelod o Nefyn a drefnodd y meinciau wrth y gof golofn i gael llun ohonynt ac hefyd i gysylltu hefo aelodau Morfa Nefyn i drafod y mater cyn cyflwyno cais i Cyngor Gwynedd.

9. **Llyfrgell Nefyn – Ffenestri, Stordy a Casgliad Gwastraff -** Sharon Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

Fe alwodd un o'r aelodau yn y Llyfrgell a sylwodd fod y ffenstri yn fudur tu allan, mae'r clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd a cyfrifoldeb Cyngor Tref Nefyn ydi cael rhywun i lanhau y ffenestri. Mae'r clerc wedi derbyn ebost gan y sawl sy'n gweithio yn y Llyfrgell yn dweud fod crac yn un o'r ffenestri sydd yng nghefn yr adeilad ac eto mae'r clerc wedi cael cadarnhad mai Cyngor Tref Nefyn sydd yn gyfrifol am drwsio'r ffenestr.
Mae bin gwastraff y tu allan i'r Llyfrgell yn llawn ac er bod y sawl sy'n gweithio yn y Llyfrgell yn ei roi allan nid yw yn cael ei wagio felly mae un o'r aelodau wedi ffonio Cyngor Gwynedd a'r ateb oedd nad oedd yn mynd i gael ei wagio oherwydd bod angen talu amdano gan ei fod yn un masnachol. Dywedodd y sawl sy'n gweithio yn y Llyfrgell fod yr ail gylchu yn cael ei gasglu a bod y glanhawraig yn mynd a'r sbwriel oddi yno gan nad oes llawer ohono ac felly nid oes angen y bin gwastraff.
Penderfyniad: Mae un o'r aelodau am ofyn i rhywun fynd yno i lanhau y ffenestri unwaith bob dau fis.
Mae un o'r aelodau am fynd i'r Llyfrgell i weld y ffenestr sydd hefo crac ynddi a'i roi nôl ar yr agenda mis nesaf.
Y clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt fynd ar bin sbwriel oddi yna gan nad oes ei angen.
Cynnig: Sharon Williams Eilio: Arfon Hughes

10. **Arwydd Uwchben Siop Siarad – newid o Menter Llŷn i Cyngor Tref Nefyn –** Arfon Hughes
Cafwyd cais gan un o'r aelodau i roi arwydd Cyngor Tref Nefyn uwchben Siop Siarad, mae o wedi cael ei basio mewn cyfarfod Cyngor Tref yn y gorffennol ond nid oes dim wedi digwydd yn dilyn hynny. Yr enwau sydd uwchben Siop Siarad ar y funud yw Crwydro, Menter Llŷn a Siop Siarad ond nid yw Cyngor Tref Nefyn yno. Mae Felin Fach wedi gofyn am gael roi ei enw nhw uwchben Siop Siarad hefyd ond mae Felin Fach ar y ddwy ffenestr yn barod felly nid oes ei angen uwchben hefyd. Gofynnodd un o'r aelodau os oes modd cael banner 'Hawl i Fyw Adra' yno hefyd.
Penderfyniad: pasiwyd i roi enw Cyngor Tref Nefyn uwchben Siop Siarad a'r aelodau i ddylunio logo erbyn y pwyllgor nesaf er mwyn cael dewis pa un i roi fyny. Pasiwyd hefyd i adael Crwydro ar y chwith, rhoi Cyngor Tref Nefyn yn y canol a Siop Siarad ar y dde.
Cynnig: Gruffydd Williams Eilio: Arfon Hughes

11. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    - **Cylch Meithrin Nefyn –** cais am gyfraniad ariannol tuag at gosod camera CCTV – wedi ei ohirio ym mhwyllgor Chwefror 2022 i gael amcanbris i osod y camera.
      **Penderfyniad:** pasiwyd yn unfrydol i dalu'r amcanbris yn llawn.
      Cynnig: Rhian Sanson Eilio: Sharon Williams
    - **Hawl Tramwy Cyhoeddus Honedig – Harbwr Nefyn –** Cais am Orchymyn Diwygio Map Swyddogol i ychwanegu llwybr troed cyhoeddus i'r Map a'r Datganiad Swyddogol.
      **Penderfyniad:** pasiwyd i gefnogi'r cais.
      Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhian Sanson
    - **Adnewyddu Cytundeb Trydan Siop Siarad –** Clerc – Mae E.On Next wedi gwneud camgymeriad oherwydd fod Cyngor Tref Nefyn mewn cytundeb trydan tan 16eg o Orffennaf 2023.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298

**12. Ceisiadau Cynllunio**

Ceisiadau Diweddarach
C22/0521/42/DT – Llys Awel, 5 Maes Terfyn, Morfa Nefyn – Estyniad ar flaen yr eiddo.
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

**13. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1034.74
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £29.98
- Tyddyn Sachau – Blodau Morfa - £51.95
- Nefyn Foods Ltd – Rent Siop Siarad - £780.00
- Cliff Hughes – Ail daliad cytundeb £1140.00 + gwaith ychwanegol - £901.51 = £2041.51
- D. M. Parry – Ail daliad mynwent Nefyn a Morfa Nefyn - £1020.00 + gwaith ychwanegol - £100.00 = £1120.00
- HMRC – PAYE Mis 2 - £184.28
- Treth Llyfrgell Nefyn 2021-2022 - £1712.00
- Treth Llyfrgell Nefyn 2022-2023 - £1712.00
- Rynat Ltd – Archwiliad Blynyddol Cae Chwarae Parc Y Ddôl – £120.00 – Cyfrif Bryn Mynach

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Alaw Llewelyn Roberts

**14. Taliadau wedi eu derbyn**

- G.D.Roberts – Angladd Robert Wyn Parry - £815.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Catrin Roberts – 07880 737298